# MENTRO

## Medi – Tachwedd 2017

Mae Mentro yn fenter sydd wedi ei lunio i helpu paru ffermwyr a thirfeddianwyr sy'n chwilio am gyfle i gamu'n ôl o'r diwydiant gyda newydd ddyfodiaid sy'n chwilio am ffordd i mewn i ffermio. Mae'n arwain pobl ar y ddwy ochr drwy'r camau allweddol sy'n angenrheidiol i ganfod partner busnes posib. Mae pecyn integredig o hyfforddiant, mentora a chefnogaeth busnes yn rhoi'r sgiliau, yr wybodaeth a'r hyder angenrheidiol i'r rheini sy'n cymryd rhan i'w cynorthwyo i gyflawni eu nod.

**Cam 1**
**Trosglwyddo Gwybodaeth Greiddiol**

- Gwefan
- Rhwydwaith Arddangos
- Digwyddiadau Ymwybyddiaeth Strategol
- Grwpiau Trafod
- Erthyglau
- Agrisgôp
- Academi Amaeth

**Cam 2**
**Cefnogaeth wedi'i Deilwra**

- Cymorthfeydd un-i-un
- Mentora
- Paru
- Hyfforddiant
- Gweithdai

**Cam 3**
**Sefydlu Menter ar y Cyd**

- Mentora (parhad)
- Gwasanaeth Cynghori (Hyd at €3000 ar gael i bob partneriaeth er mwyn llunio cynllun busnes ac arweiniad cyfreithiol i drafod strwythur arfaethedig y busnes)
- Arweiniad Cyfreithiol

---

### Sgôr RAG

**Coch: Dan y targed** **Oren: Bron â chyrraedd y targed** **Gwyrdd: Ar y trywydd iawn**

**Gwyrdd** Prosiect a digwyddiadau ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed

**293**
DATGANIAD O DDIDDORDEB WEDI CAEL EU CYFLWYNO ERS DECHRAU'R RHAGLEN MENTRO

**246**
O GYFRANOGWYR GWEITHREDOL



**20,462**
ERW O DIR AR GAEL

**102**
O GEISWYR YN CHWILIO AM GYFLE

**76**
O DDARPARWYR YN CYNNIG CYFLE


**68**
WEDI CANFOD PARTNER

Rhai o'r cyfleoedd sy'n cael eu cynnig ar hyn o bryd. Mae angen i geiswyr gofrestru gyda Mentro a chwblhau proffil i gael mynediad llawn at broffiliau llawn y Darparwyr.

| Lleoliad | Maint y daliad (hectar) | Sector | Rhif Cyfeirnod Mentro |
|---|---|---|---|
| Rhydaman | 27 | Defaid | 84 |
| Y Trallwng | 152 | Bîff a Defaid | 222 |
| Caerdydd | 2-120 | Defaid | 259 |
| Castell Newydd Emlyn | 68 | Llaeth (yn flaenorol) | 290 |
| Y Drenewydd | 102 | Bîff a Defaid | 229 |
| Llandysul | 92 | Defaid | 126 |
| Caerfyrddin | 40 | Defaid | 105 |
| Caerfyrddin | 36 | Bîff a Defaid | 244 |
| Llanfyllin | 29 | Coedwigaeth | 220 |
| Caerfyrddin | 185 | Llaeth | 121 |
| Hwlffordd | 70 | Bîff a Defaid | 112 |
| Hwlffordd | 24 | Garddwriaeth | 87 |
| Abergele | 100 | Bîff a Defaid | 189 |

Anfonwyd cyfleoedd Mentro at 60 o Geiswyr ar ddiwedd mis Tachwedd. Cafwyd 8 datganiad o ddiddordeb i dderbyn gwybodaeth bellach. Rydym yn dal i weld niferoedd isel o newydd ddyfodiaid yn camu ymlaen i glywed mwy am y cyfleoedd sydd ar gael.

Cymhareb Ceiswyr a Darparwyr






**Mae 36 pâr wedi cael eu gwneud**


Mae **28%** o'r cyfranogwyr wedi canfod partner busnes

Eu cam nesaf fydd gwneud cais am Wasanaeth Cynghori Cyswllt Ffermio sy'n darparu gwerth hyd at €3000 o gyngor wedi'i ariannu'n llawn i gytuno ar strwythur busnes ac i greu cynllun ar gyfer eu menter grŵp newydd.

Mae ein **Llawlyfr Mentro** yn darparu trosolwg o'r amrediad o fodelau busnes Mentrau ar y Cyd y mae modd eu hystyried:






Mae **11 partneriaeth** ar hyn o bryd yn derbyn gwasanaethau cynghori ac mae **7 menter ar y cyd newydd** wedi cael eu sefydlu.

Ydych chi'n chwilio am lwybr i mewn i ffermio? Neu a allech chi ddarparu cyfle i newydd ddyfodiad? Cliciwch yma i ddarganfod mwy.

## Gweithdai Mentro


Cynhaliwyd cyfres o chwe gweithdy rhanbarthol yn ystod y cyfnod gyda'r nod o ddod â pherchnogion tir a ffermwyr sy'n dymuno gadael neu gamu'n ôl o'r diwydiant ynghyd â'r rhai sy'n chwilio am gyfle i gymryd eu camau cyntaf yn y diwydiant neu'n dymuno edrych ar gyfleoedd ffermio cyfran neu fentrau ar y cyd. Roedd y gweithdai'n canolbwyntio ar gynorthwyo mynychwyr i ystyried eu hasedau a'u sgiliau a'u cynorthwyo i adnabod heriau neu gyfleoedd penodol. Bu siaradwyr arbenigol hefyd yn egluro sut all Mentro gynorthwyo i ganfod y pâr iawn, trwy adnabod y cyfuniad gorau o dir, pobl, sgiliau ac amcanion cytûn sy'n angenrheidiol ar gyfer pob menter ar y cyd.

Ar gyfartaledd, roedd mwy o Ddarparwyr na Cheiswyr yn bresennol.

| Lleoliad | Mynychwyr | Ceiswyr (Cyplau wedi'u cyfrif fel 1) | Darparwyr (Cyplau wedi'u cyfrif fel 1) |
|---|---|---|---|
| Aberhonddu | 27 | 4 | 13 |
| Y Trallwng | 28 | 8 | 12 |
| Caerfyrddin | 30 | 12 | 12 |
| Aberaeron | 31 | 7 | 12 |
| Caernarfon | 19 | 5 | 7 |
| Rhuthun | 18 | 8 | 7 |

BU **99** O DDARPARWYR A **54** O GEISWYR YN BRESENNOL YN Y GWEITHDAI

### Gweithdai Rhwydweithio Mentro Medi/Hydref 2017




## Cynhadledd Paru Tir, Chatsworth House, 8fed-9fed Tachwedd

Bu Einir Davies, Rheolwr Datblygu a Mentora, a Gwen Davies, Cydlynydd Datblygu a Mentora Cyswllt Ffermio yn mynychu cynhadledd ac yn cwrdd â chynrychiolwyr o Loegr a Gogledd Iwerddon sy'n darparu rhaglenni tebyg. Cafodd tipyn o wybodaeth ddefnyddiol ei rhannu ac roedd hi'n ddiddorol gweld bod rhwystrau tebyg yn dod i'r amlwg.

## Ffair Aeaf Frenhinol Cymru, Llanelwedd, 27ain-28ain Tachwedd

Croesawyd Lesley Griffiths, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig, ynghyd â rhanddeiliaid allweddol a chynrychiolwyr o'r diwydiant i ddathlu'r hyn a gyflawnwyd gan y rhaglen Mentro ers ei lansio dwy flynedd yn ôl. Roedd cyfle hefyd rannu rhai o'r rhwystrau ac i alw ar randdeiliaid i'n cefnogi ymhellach trwy hybu'r cyfleoedd sydd ar gael.



Yr Athro Wynne Jones, Rhys Richards, Lesley Griffiths AC, Einir Davies, Rheolwr Datblygu a Mentora Cyswllt Ffermio.

### Astudiaeth Achos



Cliciwch yma i ddarganfod mwy am brofiad Rhys Richards o fentro ar y cyd.



Paratowyd y fideo uchod ar gyfer y ffair aeaf a dibenion marchnata eraill.

## Rhai o uchafbwyntiau ein llwyfannau cyfryngau cymdeithasol ac ar lein.

### Facebook 20/09/2017

*"It is so difficult to get a foothold in farming, I'm really grateful of this opportunity."* Rhys Richards #thelatest

Dilynwch y ddolen i archebu eich lle yn ein gweithdai 'Mentro' lle cewch ddarganfod mwy am y broses mentro ar y cyd.

Pobl a Gyrhaeddwyd – **13222**
Hoffi, Sylwadau a Rhannu – **296**

### Facebook 13/10/2017

Our series of Venture Workshops came to a close this week with about 160 people attending the 6 pan-Wales events in total. In general, we saw many more people who could provide opportunities than those looking for a route into the industry. Contact us if you are interested in the programme!

Thank you to Alison Ricket from the Fresh Start Land Enterprise Centre and Manon Tomos from Agri Advisor for joining us and for leading the workshops.

Pobl a Gyrhaeddwyd – **6488**
Hoffi, Sylwadau a Rhannu – **16**

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government